

Cofion

Anfonwn ein cofion heddiw at John H. Williams (Llanefydd) sy'n parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd. Hyderwn y bydd yn gwella'n fuan, a'i fod yn profi daioni ac agosrwydd yr Arglwydd yn ei amgylchynnu. Yno yn Ysbyty Glan Clwyd hefyd y treuliodd Elwyn Roberts (Llansannan) ychydig ddyddiau ddechrau'r wythnos, ond mae'n dda clywed ei fod wedi cael dod adref erbyn hyn. Anfonwn ein cofion cynhesaf ato yntau'r un modd. Mae eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd a chyflwynwn hwy a'u teuluoedd i ofal Duw. Gweddiwn y bydd pob un ohonynt yn cael adferiad iechyd llwyr a buan ac y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.

Parhawn i gofio hefyd am yr holl deuluoedd yn ein plith sy'n galaru am anwyliaid. Gweddiwn y byddant hwythau yn profi Duw yn agos a'u bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn.

I ddod

- **“LLWYBR MARI A’N LLWYBR NI”** – Mae Adran Is-bwyllgor y Chwiorydd EBC a Byd Mary Jones yn cydweithio i drefnu encil ar gyfer grwpiau o ferched. Bydd y diwrnod yn cynnwys cyfle i edrych ar agweddau gwahanol o fywyd a ffydd Mari, cyfle i wrando ar dystiolaethau gan bobl sy'n trysori Gair Duw heddiw, ac ymweliad â'r Ganolfan. Cynigir yr encil yn ystod y prynhawn ar un o'r dyddiau canlynol: *dydd Mercher, Mai 24ain; dydd Mawrth, Mehefin 27ain; neu dydd Mawrth, Gorffennaf 18fed*. Y pris yw £11 yr un yn cynnwys cinio a phaned yn y prynhawn. Mae lle i 30 ar gyfer pob sesiwn a fydd yn dechrau 11.45 tan 4.00. I archebu lle, cysylltwch â Nerys Siddall ar 01678 521877 neu ar ebost: nerys.siddall@biblesociety.org.uk
- **CYMANFA GANU ANNIBYNWYR DYFFRYN CLWYD** dydd Sul, Mehefin 11eg yng Nghapel Pendref, Rhuthun am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2016-17. Arweinydd: Nia Edwards, Llangwm. Croeso i bawb.
- **PENWYTHNOS MERCHED YN Y BALA** ar Mehefin 23ain-24ain. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: colegybala@ebcpcw.org.uk / 01678 520565.
- **DATHLU 150 MLYNEDD ERS SEFYDLU CAPEL LLANEFYDD A 10 MLYNEDD ERS ADDASU'R ADEILAD** – Oedfa Deuluol bore Sul, Gorffennaf 9fed am 10.30 o dan arweiniad y Parch. Ddr Rhodri Glyn. Cinio'r dathlu yn dilyn yn y neuadd. Os oes gennych luniau neu atgofion, a fydddech gystal â'u rhannu efo un o'r blaenoriaid erbyn Gorffennaf 1af os gwelwch yn dda?



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 21^{ain} Mai 2017

Darllenid y Dydd

1 Corinthiaid 2:12-16
(BCND tud.182 / BCN tud.166)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org


hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'n gwasanaethau. Beth am i ni ddechrau'r diwrnod heddiw gydag agwedd debyg i'r Salmydd, sy'n annog ei hun i beidio dal yn ôl wrth fendithio a moli'r Arglwydd sanctaidd? Rydym am atgoffa'n hunain o'r Duw sy'n llawn doniau, yn maddau ein holl gamweddau ac yn iacháu ein holl afiechyd. (Salm 103:2-3) Ac wrth wneud hyn, diolchwn am Dduw graslon a ddaeth yn gîg a gwaed yn Iesu Grist i brofi bod maddeuant ac iachâd am byth i'w gael wrth i ni ymddiried ym Mab Duw.

Petawn yn mynd o gwmpas pentrefi a threfi cyfagos a holi pobl ar y stryd beth sy'n gwneud Cristnogion yn wahanol i bobl eraill, beth fydddech chi'n disgwyl iddynt ei ddweud? Bod Cristnogion yn byw yn ôl rheolau gwahanol, eu bod ychydig yn od, neu efallai'n bobl sy'n cymryd rhai pethau'n rhy ddifrifol? Fydddech chi'n disgwyl clywed yr ateb fod Cristnogion yn deall pethau'n well? Efallai ddim, ond dyna'r hyn y mae Paul yn ei egluro yn y darn o'i Lythyr Cyntaf at y Corinthiaid y byddwn yn ei ddarllen gyda'n gilydd heddiw. Wrth gwrs, nid yw Paul am funud yn ceisio honni fod Cristnogion yn well na phobl eraill, ond mae'n nodi fod y rhai sydd wedi derbyn yr Ysbryd Glân â dealltwriaeth o'r hyn y mae Duw wedi ei roi i'w bobl. Meddyliwch am ychydig am rai o ddisgyblion cynharaf Iesu – Pedr ac Ioan a alwyd ganddo ar lan y môr yng Ngallilea, pysgotwyr digon cyffredin a phobl heb ddim addysg yng ngolwg yr arweinwyr Iddewig (Actau 4:13). Eto, dyma'r rhai a ddaeth wedi'r Atgyfodiad a'r Pentecost i fod yn arweinwyr dylanwadol yr Eglwys Gristnogol wrth iddi dyfu a lledaenu o Jerwsalem. Oherwydd dylanwad yr Ysbryd Glân arnynt, gallodd y ddau hyn gyhoeddi fod maddeuant a pherthynas iawn gyda Duw yn dod i ran pawb fyddai'n dod i gredu yn Iesu Grist, am mai Ef oedd y Meseia – 'Oen Duw sy'n cymryd ymaith bechod y byd.' (Ioan 1:29) Ac wrth i ni feddwl am ein sefyllfa heddiw, dylem sylweddoli fod yr Ysbryd Glân yn parhau i wneud yr un gwaith ymhlith Cristnogion. Mae'n ein galluogi i gael meddwl Crist a deall gwaith Duw trwy Iesu Grist mewn ffordd na fydd pobl sydd heb Grist yn ei ddeall. Peidiwn â gadael i hyn ein digalonni na'n gwneud yn falch – os ydym wedi dod i gredu yng Nghrist, nid i ni mae'r diolch am hynny ond i Dduw am fod mor raslon tuag atom. Ac os ydym yn siarad â chyfeillion sydd ddim yn credu, ac yn teimlo fod yna wal o ddiffyg deall rhyngom, cofiwn mai dim ond trwy'r Ysbryd y mae'r gorchudd yn cael ei godi, a bod yr Ysbryd hwnnw'r un mor bwerus a galluog i roi bywyd newydd a meddwl Crist i bobl heddiw ac yr oedd yng nghyfnod Pedr, Ioan a Paul.

Darllenid Wythnos Nesaf

Salm 110 (BCND tud.556 / BCN tud.508)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 21^{ain} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Gwion yn pregethu.
- Mercher – 24^{ain} ➤ **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
➤ **Torri Syched y dynion** – seiat yn Derwen Deg, Ffordd Glascoed, Llanelwy am 7.30.
- Iau – 25^{ain} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
➤ **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 26^{ain} ➤ **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) yn Preswylfa, Cefn Meiriadog am 7.00.
- Sul nesaf – 28^{ain} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 21^{ain} ➤ Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 28^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 21^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
➤ Cynhelir Sasiwn y Plant (Groes, Henllan, Nantglyn, Peniel a Saron) yng Nghapel Saron am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Elsbeth Jones, Gellifor. Bydd y casgliad yn cael ei gyfrannu i Tŷ Croeso, Ysbyty Glan Clwyd. **PLŴS BYDDWCH YN OFALUS O'CH PLANT GAN FOD Y CAPEL AR OCHR Y FFORDD FAWR.**
- Mercher – 24^{ain} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Mai 21ain, os gwelwch yn dda.**
- Sul nesaf – 28^{ain} ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 21^{ain} ➤ Cynhelir Sasiwn y Plant (Groes, Henllan, Nantglyn, Peniel a Saron) yng Nghapel Saron am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Elsbeth Jones, Gellifor. Bydd y casgliad yn cael ei gyfrannu i Tŷ Croeso, Ysbyty Glan Clwyd. **PLŴS BYDDWCH YN OFALUS O'CH PLANT GAN FOD Y CAPEL AR OCHR Y FFORDD FAWR.** Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 28^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 21^{ain} ➤ Cynhelir Sasiwn y Plant (Groes, Henllan, Nantglyn, Peniel a Saron) yng Nghapel Saron am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Elsbeth Jones, Gellifor. Bydd y casgliad yn cael ei gyfrannu i Tŷ Croeso, Ysbyty Glan Clwyd. **PLŴS BYDDWCH YN OFALUS O'CH PLANT GAN FOD Y CAPEL AR OCHR Y FFORDD FAWR.** Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf – 28^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 21^{ain} ➤ Bydd y Parch. Robert O. Roberts yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain.
- Sul nesaf – 28^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.